


CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU – Y GLUDLYS AMRYLIW

Cyflwyniad

Rhywogaeth a geir ar dir âr, ar dir diffaith ac ar safleoedd arfordirol tywodlyd yw'r gludlys amryliw (*Silene gallica* – *small-flowered catchfly*). Planhigyn y gaeaf ydyw, un unflwydd, sy'n egino'n bennaf yn yr hydref ond sydd hefyd yn gallu egino yn y gwanwyn. Fe'i ceir felly yng nghnydau'r gwanwyn a'r gaeaf.

Ar un adeg roedd y gludlys amryliw yn bodoli ar draws rhan helaeth o'r Deyrnas Unedig ac fe'i cofnodwyd mewn 283 o sgwariau 10km mor bell i'r gogledd â chanolbarth yr Alban.

Ond mae wedi prinhau'n enbyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bellach yn ne a gorllewin Lloegr a Chymru y'i gwelir yn bennaf. Yng Nghymru ystyrir ei fod "mewn perygl o ddiflannu" bellach ac mae'n rhywogaeth y mae ei gwarchod yn flaenoriaeth dan Adran 42 a than Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig.



© Richard Pryce

Mewn ardaloedd arfordirol y mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd lle mae'n dal i fodoli. Mae'r gostyngiad yn niferoedd y rhywogaeth hon yn genedlaethol wedi bod yn gysylltiedig â newidiadau ym myd amaeth, ond mae ei sefyllfa wedi mynd o ddrwg i waeth oherwydd bod gaeafau geirwon yn fygythiad iddi (ni all yr eginblanhigion oddef tymheredd is na -10°C). Mae'n dal i fodoli dros ardal eang yng nghanolbarth a de Ewrop ac nid yw dan fygythiad yn Ewrop ar y cyfan ond mae wedi diflannu o ogledd Ewrop mwy neu lai. Yng Nghymru, mae tua 15 cofnod o'r rhywogaeth ar ôl 1970 ac mae'r rhain yn bennaf ar gaeau âr, arfordirol, tywodlyd ym Morgannwg, yn Sir Benfro ac yng Ngheredigion.

Mae'r defnydd cynyddol o chwynladdwyr a gwrteithiau ymhlith y rhesymau dros y gostyngiad yn ei niferoedd ar safleoedd âr. Mae'r cynnydd yn y gwrtaith a'r chwynladdwr a roddir ar gnydau'r gaeaf yn egluro pam nad yw'r rhywogaeth hon wedi elwa ar y newid i hau had mewn rhigolau yn yr hydref fel y byddid wedi'i ddisgwyl fel arall. Mae dinistrio'r noddfeydd ar ymyl caeau, addasu tir âr y cyrion yn dir pori, a'r cynaeafu cynnar (h.y. tua chanol mis Gorffennaf), a all ddifetha'r planhigion cyn i'r had hedeg, yn rhesymau eraill dros hyn.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r gludlys amryliw wedi'i gysylltu'n bennaf â safleoedd diwydiannol ac fe'i cofnodwyd gyntaf ar safle Doc Llanelli gan Motley ym 1836, "*Occasionally found in corn-fields*" gan Ley ym 1896, ar safle gwaith tun Caerfyrddin gan Barker oddeutu 1900 ac ym Mhorth Tywyn gan Hamer ym 1911. Ni wyddys a oedd y rhywogaeth wedi dal ei thir ar unrhyw rai o'r safleoedd hyn am gyfnod ond o'r ddau gofnod ohoni yn Sanclêr a Glanyfferi a gafodd eu cofnodi gan Ronald May tua 1960, yn achos y planhigyn yng Nglanyfferi o leiaf, chwyn mewn gardd ydoedd ac ni oroesodd. Er i'r planhigyn gael ei gofnodi ym Mhorth Tywyn yn y 1950au neu'r 1960au gan Ann Conolly, yn ôl y sôn o'r morglawdd gorllewinol, nis gwelwyd eto tan 1997 mewn ychydig fetrau sgwâr ar gopa erydog wal ogleddol Doc Mewnol Gorllewinol Porth Tywyn. Ymddengys bod y planhigion ym Mhorth Tywyn yn egino yn y gwanwyn (ym mis Mai yn y rhan fwyaf o flynyddoedd), yn blodeuo, yn hadu ac yna'n diflannu cyn pen mis neu ddau. Fe'i cofnodwyd bob blwyddyn bron rhwng 1997 a 2012 er bod y gwaith diweddar o reoli'r ystad wedi golygu bod y safle wedi'i fygu gan laswellt bras

sy'n anaddas ar gyfer eginiad planhigyn unflwydd, megis *Silene gallica*, nad yw'n cystadlu'n dda. Ni chafodd ei gofnodi yn 2013. Mae gwaith rheoli'n cael ei wneud i adfer amodau'r safle er mwyn iddo fod yn gynefin addas.

Mae rheoli parcdir mewn modd amhriodol a gwaith i wella'r dociau a'u sefydlogi yn fygythiadau enbyd o ran y safle ym Mhorth Tywyn sydd hefyd dan bwysau aruthrol oherwydd ei fod yn safle y mae'r cyhoedd yn ei ddefnyddio'n fawr ac oherwydd cynlluniau datblygu. Oddi ar i reiliau gael eu gosod ar hyd wal y doc, sy'n atal mynediad ato, mae'r planhigyn yn dioddef gan ei fod yn cael ei fygu gan lystyfiant bras oherwydd nad oes traul yn sgil pobl yn cerdded heibio. Mae ei bwysigrwydd a'r ffaith ei fod dan fygythiad enbyd yn mynnu ymdrech benodol i sicrhau y caiff ei gadw a'i warchod.

Y Prif Fygythiadau

- Rheoli amhriodol ar yr unig safle yn Sir Gaerfyrddin
- Mewnfridio yn yr unig boblogaeth.

Datganiad ynghylch y Weledigaeth a'r Amcanion

Ein gweledigaeth ar gyfer y gludlys amryliw yw sicrhau bod y planhigyn yn parhau ar yr unig safle lle gwyddys ei fod yn bodoli yn y sir a cheisio ehangu dosbarthiad y rhywogaeth yn y sir drwy wasgaru naturiol a thrwy weithio gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

- SFC1** Cynnal a chynyddu poblogaeth y gludlys amryliw yn Sir Gaerfyrddin
- SFC2** Monitro'n flynyddol yr unig boblogaeth sydd yn Sir Gaerfyrddin
- SFC3** Cynyddu ymwybyddiaeth o'r gludlys amryliw yn Sir Gaerfyrddin a chynghori ynghylch rheoli cynefinoedd.
- SFC4** Cynnal rhaglen oddi ar y safle yn y sir

Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Lluniwyd cynllun rheoli ar gyfer poblogaeth Porth Tywyn –
Cyngor Sir Caerfyrddin SFC3
- Monitro poblogaeth Porth Tywyn yn flynyddol –
Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain SCF2
- Siarad â swyddogion perthnasol y Cyngor i drafod rheolaeth –
Cyngor Sir Caerfyrddin/Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain SFC3

2013

- Waliau'r doc wedi eu rheoli i hybu eginiad hadau gludlys amryliw -
Cyngor Sir Caerfyrddin SFC1

2015

- 33 o blanhigion yn eu blodau yn y lleoliad arferol ar wal y doc ym Mhorth Tywyn. Ni ddaethpwyd o hyd i'r ddau glwstwr ychwanegol a ganfuwyd yn 2014 – BSBI

SFC2

Y camau arfaethedig yn y dyfodol

- Ymgymryd â phrosiect lluosogi oddi ar y safle
– i'w gynnal yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru –
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru/Cyngor Sir Caerfyrddin
- Nodi safleoedd addas ar gyfer ailgyflwyno yn ne Sir Gaerfyrddin –
Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain/Cyngor Sir Caerfyrddin
- Ystyried hau'r talarau ar fferm Burns Pet Nutrition, Cydweli
- Monitro safle Porth Tywyn yn flynyddol –
Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain/Cyngor Sir Caerfyrddin

SFC4

SCF4

SFC1/4

SFC2

Dolenni defnyddiol

- Plantlife – [small-flowered catchfly](#)



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae'r sefydliadau canlynol yn rhan o [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#):
[Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru](#),
[Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar \(RSPB\)](#),
[Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#),
[Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#),
[Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#),
[Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#),
[Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#),
[Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#),
[Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)